Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AS

Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

9 Tachwedd 2020

Annwyl Dafydd,

Yn ei gyfarfod diweddaraf ar 5 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y byddem yn ysgrifennu atoch i gael mwy o wybodaeth am nifer o bwyntiau a nodir isod.

**Cefnogaeth i'r sector cerddoriaeth fyw gan Gymru Greadigol**

Rydym wedi croesawu'r cyllid sylweddol gan Gymru Greadigol i leoliadau llawr gwlad o ganlyniad i bandemig COVID-19. Yn gyffredinol, mae hyn wedi bod yn hanfodol i oroesiad y sector yn ystod y cyfnod heriol hwn. Fodd bynnag, clywsom y gallai oedi o ran dosbarthu'r dyraniadau cyllid – yn enwedig pan fydd gan leoliadau cerddoriaeth a lletygarwch gostau i'w talu nawr – arwain at fusnesau'n mynd i'r wal yn y cyfamser.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni yn eich ymateb ynglŷn â'r amserlenni presennol ar gyfer rhoi cyllid i leoliadau, a nodi a oes modd cyflymu'r broses hon. Gyda hyn mewn golwg, gofynnwn hefyd a oes unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i rannu adnoddau staff tîm yr Economi (sydd â'r sgiliau a'r profiad o ran dosbarthu cyllid grant) â Chymru Greadigol am gyfnod penodol er mwyn ymateb i'r pwysau presennol ar gyllid Cymru Greadigol?

**Cyllideb Atodol 2020-21**

Wrth ystyried Cyllideb Atodol 2020-21 byddem yn croesawu ymateb i'r canlynol:

- Mae Chwaraeon Cymru wedi cael £12.5 miliwn ychwanegol, ond roedd y Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden (roeddem ar ddeall mai arian newydd oedd hwn) yn werth £14 miliwn. A fyddai modd rhoi eglurhad o'r anghysondeb hwn?
- Nodwn fod cyllideb gyfalaf Cadw wedi'i gostwng £3.7 miliwn – a allwch egluro'r rhesymau dros y gostyngiad hwn?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

- Mae'r dyraniadau newydd ar gyfer diwylliant a nodir yn y Gyllideb Atodol yn cyfateb i fwy na'r Gronfa Adferiad Diwylliannol sy'n werth £53 miliwn – a fyddai'n bosibl egluro'r rheswm am hyn?

Er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau hyn erbyn 27 Tachwedd.

Yn gywir,

**Helen Mary Jones**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu